Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD:	**17 Ionawr 2023**
LLEOLIAD:	Siambr y Cyngor ac o bell drwy gynhadledd fideo
TEITL:	**Trefniadau ar gyfer Aelod Lleyg ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DIBEN YR ADRODDIAD:	Nodi penodi aelod annibynnol/lleyg newydd a phenodi Is-gadeirydd newydd
Er:	Gwybodaeth a Phenderfyniad

Cefndir

Recriwtio Aelod Lleyg

Ar ôl i'r aelod lleyg a'r Is-gadeirydd, Liam Hull, gyflwyno ei hysbysiad o fwriad i ymddiswyddo o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae aelod newydd wedi'i recriwtio a'i benodi i'r Pwyllgor.

Ar 15 Rhagfyr 2022, penderfynodd y Cyngor gymeradwyo penodi'r unigolyn canlynol yn aelod annibynnol/lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio **o 15 Rhagfyr 2022 (yn amodol ar eirdaon boddhaol)** am weddill y tymor gweinyddol presennol:

- Mr Andrew Blackmore

(Gweler yr Adroddiad i'r Cyngor yma: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s4100/Adroddiad%20ar%20apwyntio%20Aelod%20Lleyg%20Annibynnol%20ir%20Pwyllgor%20Llywodraethu%20ac%20Archwilio.pdf?LLL=1)

Mae Adran 116 Deddf 2021 yn diwygio Adran 82 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Mesur 2011) i gynnwys y canlynol:

- mae'n rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod lleyg, ac
- ni chaiff yr aelod a benodir yn is-gadeirydd fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol nac yn gynorthwyydd i'w weithrediaeth.

Is-gadeirydd

Bydd y Pwyllgor yn cofio, ar 10 Mawrth 2022, penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Is-gadeirydd gael ei benodi o blith y tri aelod lleyg sydd ar y Pwyllgor.

Ystyrir hyn yn angenrheidiol oherwydd y gall amgylchiadau godi lle byddai angen i'r Is-gadeirydd weithredu fel Cadeirydd pan fo'r Cadeirydd yn absennol.

(Gweler Deddf 2021 yma: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/section/116/welsh a Mesur 2011 yma https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents/enacted/welsh)

Penodi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd

Mae adran 116 Deddf 2021 hefyd yn diwygio Mesur 2011 i ddatgan mai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun sy'n penodi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Y Sefyllfa Bresennol

Cytunodd yr aelod annibynnol a'r Is-gadeirydd sy'n ymddiswyddo, Liam Hull, i aros yn y rôl hyd nes y gellid penodi Aelod Lleyg ac Is-gadeirydd yn ei le.
O'r herwydd, mae'r pwyllgor wedi llwyddo i gadw at yr un lefel o aelodaeth, sef 9 aelod (6 Chynghorydd a 3 Aelod Annibynnol/Lleyg).

Mae'r pwyllgor bellach heb Is-gadeirydd.

Er mwyn sicrhau bod Is-gadeirydd yn y swydd yn dilyn ymddiswyddiad Liam Hull o'r Pwyllgor, argymhellir bod y Pwyllgor yn penodi Is-gadeirydd newydd ar unwaith.

Argymhellion: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cytuno:

1. Nodi bod y Cyngor wedi penodi Andrew Blackmore fel aelod annibynnol/lleyg newydd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15/12/22;

2. Penodi'r Is-gadeirydd newydd ar unwaith o 17 Ionawr 2023 am weddill y cyfnod o ddwy flynedd o fis Mai 2022 (hyd at fis Mai 2024).

Y rhesymau dros yr argymhellion:

- Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth; ac
- Er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor y cyfansoddiad priodol.

Atodiadau: Dim

Pennaeth y Gwasanaeth: Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)

Swyddog Adrodd: Elin Prysor/Harry Dimmack

Dyddiad: 20 Rhagfyr 2022